Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Polisïau Adnoddau Dynol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Mae pob un o weithwyr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) yn ddarostyngedig i gytundebau cyfunol a drafodir ac y cytunir arnynt gan Gyngor Cenedlaethol Staff yr Heddlu. Yn ogystal, mae cytundebau cyfunol lleol sy'n cael eu trafod gydag Undebau Llafur penodol sy'n cael eu cydnabod gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer dibenion bargeinio cyfunol. Mae'r cytundebau hyn yn cael eu hymgorffori yn Llawlyfr Amodau Gwasanaeth a Chyflog Staff Heddlu Dyfed-Powys.

Bydd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn glynu wrth bolisïau Heddlu Dyfed-Powys sy'n ymwneud â phobl, os ydynt yn cael eu rhestru isod. Fodd bynnag, ar gyfer y polisïau a restrir, cydnabyddir na fydd modd trosglwyddo manylion polisi bob tro i strwythurau'r CHTh (SCHTh). Mae'r ddogfen hon yn ceisio sefydlu'r diwygiadau sydd angen er mwyn caniatáu gweithredu polisïau Heddlu Dyfed-Powys i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

Wrth i Heddlu Dyfed-Powys adolygu a diwygio ei bolisïau, bydd SCHTh yn cyfrannu at yr adolygiadau, gan sicrhau eu bod nhw dal yn berthnasol ar gyfer staff SCHTh.

Oni bai y nodir fel arall, drwy bob polisi, gwneir yr amnewidiadau canlynol wrth weithredu gweithdrefnau i SCHTh:

Heddlu Dyfed-Powys / HDP / yr Heddlu	Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys (SCHTh) HEBLAW pan wneir y cyfeiriad mewn perthynas â changen UNSAIN Heddlu Dyfed-Powys
Prif Gwnstabl	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Staff yr Heddlu	Staff SCHTh
Prif Swyddog(ion)	Tîm Gweithredol SCHTh – Pennaeth Staff, Prif Swyddog Ariannol, Pennaeth Ystadau

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r holl bolisïau sy'n berthnasol i SCHTh a'r diwygiadau sydd angen yn unol â'r gwahaniaethau o ran strwythurau llywodraethu. Gall fod achlysuron lle nad yw'r prosesau a amlinellir o fewn polisi fod yn briodol ac felly gall y gwneuthurwr penderfyniadau perthnasol ddiwygio'r broses yn seiliedig ar amgylchiadau unigol pob achos. Pan mae hyn yn digwydd, bydd y rheswm yn cael ei nodi'n llawn o fewn cofnod penderfyniad a lofnodir gan y Comisiynydd ac a gedwir o fewn y ffeil achos perthnasol.

Polisi	Unigolion a nodwyd o fewn polisi HDP	Swyddog cyfatebol o fewn SCHTh ar gyfer gweithredu'r polisi	Diwygiadau canlyniadol eraill
Gwasanaethau Pobl			
Presenoldeb a Pherfformiad			Er mwyn cynnal tegwch ac annibyniaeth, pennir adran ***15.4*** Aelodaeth Panel ar sail achos wrth achos gan ddibynnu ar reng y rhai sy'n gysylltiedig ac amgylchiadau penodol yr achos. Gellir galw aelodau Panel o, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i: Heddlu Dyfed-Powys, Tîm Gweithredol SCHTh, eraill o SCHTh. Efallai bydd y Pennaeth Staff a/neu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ceisio penodi ymgynghorydd cyfreithiol, ymchwilydd neu arbenigwr AD allanol gan ddibynnu ar natur yr achos.
Rheoli Gweithdrefnau Staff Heddlu ar Brawf	Rheolwr Adnoddau Dynol	Pennaeth Staff	
Absenoldeb Rhieiniol a Rennir	Dim diwygiadau		
Recriwtio a Dethol	Rheolwyr Llinell / Adran Uned Cymorth Busnes	Pennaeth Staff Prif Swyddog Gweithredol	Ffurflen gais ar-lein drwy'r system TRENT = system fonitro SCHTh Nid yw Adran ***8.4*** yn berthnasol o fewn Adran ***11.3***, mae'r Uned Cymorth Busnes yn aros felly
Adolygiad o Ddatblygiad Perfformiad	Dim diwygiadau		

Gweithio o Adref	Pennaeth Gwasanaethau Pobl	Pennaeth Staff	Nid yw adran ***16.0*** Staff Heddlu'n newid wrth gyfeirio at Reoliadau'r Heddlu / Polisi Disgyblu Staff Heddlu
Tegwch yn y Gwaith	Dim diwygiadau		
Taliadau Bonws	Cyfarwyddwr Adnoddau	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	O fewn adran ***4.9***, cymerir bod swyddog yn golygu aelod staff SCHTh hefyd
Secondiadau Allanol	Pennaeth Gwasanaethau Pobl	Pennaeth Staff	Nid yw Heddlu = SCHTh yn berthnasol ar gyfer adran ***4.3*** mewn perthynas â hysbysiadau wythnosol yr heddlu
Rheoli Gweithredu Diwydiannol	Dim diwygiadau		Cymerir mai Cynllun Cydraddoldeb Sengl SCHTh yw'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl
Gweithdrefn Camymddwyn ar gyfer Staff yr Heddlu	Dirprwy Brif Gwnstabl fel yr Awdurdod Priodol / Prif Swyddog â chyfrifoldeb am AD (penderfyniad i wahardd) / Pennaeth Gwasanaethau Pobl Adran Safonau Proffesiynol / Gwasanaethau Pobl Gwneuthurwr Penderfyniadau'r Adran Safonau Proffesiynol / Uwch Reolwr AD Mecanwaith adrodd cyfrinachol yr Heddlu, SCHTh neu Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (mecanwaith chwythu'r chwiban)	Pennaeth Staff Tîm Gweithredol SCHTh Aelod Priodol o Dîm Gweithredol SCHTh Panel Heddlu a Throseddu / Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu	Er mwyn cynnal tegwch ac annibyniaeth, pennir adrannau ***11.2*** a ***16.1*** Aelodaeth Panel ar sail achos wrth achos gan ddibynnu ar reng y rhai sy'n gysylltiedig ac amgylchiadau penodol yr achos. Bydd paneli apêl yn cynnwys unigolion sy'n annibynnol o gamau cynharach yr achos. Gellir galw'r rhain o, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i: Heddlu Dyfed-Powys, Tîm Gweithredol SCHTh, rhywun arall o SCHTh, y Panel Heddlu a Throseddu. Efallai bydd y Pennaeth Staff a/neu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ceisio penodi ymgynghorydd cyfreithiol, ymchwilydd neu arbenigwr AD allanol gan ddibynnu ar natur yr achos.

Dim Ysmygu	Dim diwygiadau		
Rheoli Straen yn y Gwaith	Dim diwygiadau		
Rheoli Newid	Dim diwygiadau		
Absenoldeb ar gyfer Rhesymau Personol a Theuluol ac Absenoldeb Arbennig Arall	Uned Rheoli Adnoddau	Pennaeth Staff	
Gweithio Hyblyg Rhan Amser	Pennaeth Adran Uned Cymorth Busnes Rheolwr Gwasanaethau Pobl (llwybr apelio)	Pennaeth Staff Swyddog Cymorth Gweithredol Comisiynydd yr Heddlu	Mae adrannau ***6.5*** a ***6.6*** wedi'u hepgor (cysylltiad 2il reolwr llinell)
Clefyd y Siwgr	Dim diwygiadau		
Cytundeb Dysgu Sefydliadol	Pennaeth Adnoddau Dynol / Canolfan Fusnes AD Dirprwy Brif Gwnstabl (llwybr apelio)	Pennaeth Staff Prif Swyddog Ariannol	
Oriau Hyblyg	Dim diwygiadau		
Seibiant Gyrfa	Pennaeth Adran Pennaeth Gwasanaethau Pobl / Canolfan Fusnes AD / Gwasanaethau Pobl	Arweinydd Hwb Pennaeth Staff	O dan adran ***11.3*** bydd y panel apêl yn cynnwys Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Pennaeth Staff a'r Prif Swyddog Ariannol
Safonau Proffesiynol			
Cyffuriau, Alcohol a Chamddefnyddio Sylweddau	Pennaeth AD / Rheolwr AD / Gweithiwr Proffesiynol AD / Adran AD Adran Safonau Proffesiynol / Gwneuthurwr Penderfyniadau'r ASP	Pennaeth Staff Pennaeth	
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth			

Trawsrywioldeb	Pennaeth Gwasanaethau Pobl / Adran AD / Arbenigwr AD/ Rheolwr AD Rheolwr Amrywiaeth	Pennaeth Staff Rheolwr Cydymffurfio	

Protocolau a Chytundebau			
Cytundeb Oriau Gwaith – Staff yr Heddlu	Pennaeth AD	Pennaeth Staff	

Adolygiad polisi

Mae'r rhestr hon o bolisïau yn agored I'w diwygio wrth I bolisïau ychwanegol gael eu hadolygu a'u diweddaru. Wrth i Heddlu Dyfed-Powys gwblhau polisïau newydd neu ddiwygiedig, caiff y ddogfen hon ei diweddaru'n unol â hynny yn ogystal â'i hadolygu bob blwyddyn.